Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019** |
| **DYDDIAD** | **7 Awst 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**<u>Y gyfraith sy'n cael ei diwygio</u>**

<u>Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys</u>

Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1308/2013
Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1370/2013
Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008
Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008
Rheoliad gan y Comisiwn (EEC) Rhif 2568/91
Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 29/2012
Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008
Rheoliad Dirprwyedig gan y Comisiwn (EU) Rhif 2015/1366
Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2015/1368
Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/39
Rheoliad Dirprwyedig gan y Comisiwn (EU)  2017/40
Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 1974/2006
Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013
Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013

<u>Deddfwriaeth ddomestig</u>

Rheoliadau Wyau a Chywion (Lloegr) 2009
Rheoliadau Cig Dofednod (Lloegr) 2011
Rheoliadau Olew Olewydd (Safonau Marchnata) 2014 ("Rheoliadau Olew Olewydd") (dim ond y Rheoliadau Olew Olewydd sy'n gymwys o ran Cymru).

**<u>Deddfwriaeth yr UE a Ddirymwyd</u>**

Rheoliad Dirprwyedig gan y Comisiwn (EU) Rhif 611/2014

Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 615/2014

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Cyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli yn bennaf.

Mae Rheoliadau 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol a deddfwriaethol.

Trosglwyddir swyddogaethau gweinyddol fel eu bod yn arferadwy mewn sawl ffordd gan Weinidogion Cymru yn ddilyffethair; gan yr ‘awdurdod cymwys’ yn ddilyffethair (er mai'r awdurdod cymwys yw Gweinidogion Cymru yn rhinwedd Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 a Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011); a chan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar ei ben ei hun, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Trosglwyddir swyddogaethau deddfwriaethol fel eu bod yn arferadwy mewn sawl ffordd gan Weinidogion Cymru yn ddilyffethair; gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain, neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol lle nad yw pwnc y rheoliadau o fewn cymhwysedd datganoledig; gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain, neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru; a chan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar ei ben ei hun, ond dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru pan fo pwnc y rheoliadau o fewn cymhwysedd datganoledig.

Gall swyddogaethau sydd wedi eu trosglwyddo'n gydredol fel eu bod yn arferadwy nid yn unig gan Weinidogion Cymru, ond hefyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru fod yn swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun, ond dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, yn swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (“UE”) a ddargedwir sy'n ymwneud â chyd-drefniadaeth ar gyfer marchnadoedd amaethyddol (“Cyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd” neu “CMO”) gyda'r amcan cyffredin o gefnogi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y prisiau a geir gan gynhyrchwyr amaethyddol. Bydd yr offeryn hwn yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithredadwyedd sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig (“DU”) yn ymadael â'r UE. Bydd Rheoliadau 2019 yn sicrhau y bydd CMO yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael â’r UE.

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig a chronfa'r môr a physgodfeydd.

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n uniongyrchol gymwys i safonau marchnata bwyd. Bydd Rheoliadau 2019 yn sicrhau y bydd modd gweithredu safonau marchnata yn y sector bwyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Y nod yw cynnal yr holl safonau marchnata presennol sy'n berthnasol i farchnad y DU ar Ddiwrnod 1.

Ar ôl ymadael â'r UE a heb ei diwygio, byddai deddfwriaeth uchod yr UE a ddargedwir yn cynnwys darpariaethau na ellid eu gweithredu ac a fyddai'n atal cynlluniau i gefnogi'r farchnad yn y sector amaethyddol rhag cael eu darparu.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.